Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymunedol Aberbanc
# Penrhiwllan
# Llandysul
# Ceredigion
# SA44 5NP

## Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2013

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 26/03/2013**

## Cyd-destun

Mae'r ysgol fach wledig hon wedi ei lleoli ym mhentref Aberbanc ar y brif ffordd rhwng Llandysul a Chastell Newydd Emlyn yng Ngheredigion. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn byw yn y pentref a'r ardal wledig o amgylch. Mae'r ysgol yn disgrifio'r ardal fel un nad yw'n llewyrchus nac ychwaith o dan anfantais economaidd. Ar hyn o bryd, nid oes disgyblion yn hawlio cinio'n ddi-dâl.

Mae 33 o ddisgyblion rhwng pedair ac 11 mlwydd oed ar gofrestr yr ysgol. Addysgir y disgyblion gan ddwy athrawes mewn dau ddosbarth o oed cymysg. Mae gan 9% o'r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol sydd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Nid oes gan yr un ohonynt ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Cymraeg yw prif gyfrwng yr addysgu a'r dysgu ac anelir at sicrhau bod pob disgybl yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn iddynt drosglwyddo i'r sector uwchradd. Daw tua 21% o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Nid oes disgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yn yr ysgol.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd ers Medi 2001.

Cynhaliwyd yr arolygiad diwethaf ym Mawrth 2007.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Aberbanc yn 2012-2013 yw £4,648. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Ngheredigion yw £12,284 a'r lleiafswm yw £2,820. Mae Ysgol Aberbanc yn safle 19eg o'r 58 ysgol gynradd yng Ngheredigion o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- bod rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol o'u man cychwyn;
- bod perfformiad disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn gyson uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg;
- bod y staff yn darparu amrediad o brofiadau dysgu diddorol i'r disgyblion o fewn a thu allan i'r ysgol;
- bod safon yr addysgu yn dda ar y cyfan;
- bod y disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn ac yn dangos agweddau da tuag at ddysgu; a
- bod yr ethos cartrefol a gofalgar yn hyrwyddo lles a datblygiad y disgyblion yn effeithiol.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- bod arweinyddiaeth effeithiol y pennaeth yn cynnig ymdeimlad o bwrpas i waith a bywyd yr ysgol;
- bod yr holl staff yn rhannu'r un gwerthoedd ac yn cydweithio'n dda fel tîm;
- bod y gweithdrefnau hunanarfarnu yn adnabod a blaenoriaethu meysydd priodol i'w gwella;
- bod y cynllun gwella yn darparu arweiniad clir i symud yr ysgol ymlaen; a bod
- y cydweithio agos gyda'r corff llywodraethol, rhieni a phartneriaid eraill yn dylanwadu'n adeiladol ar waith yr ysgol.

## Argymhellion

A1 Ymestyn medrau ysgrifennu creadigol ac estynedig yn ogystal â medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r disgyblion.

A2 Cryfhau'r cynllunio tymor byr i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn derbyn yr her briodol ac yn datblygu eu medrau yn gyson.

A3 Ehangu'r defnydd o asesu ar gyfer dysgu a chysoni ansawdd yr adborth ysgrifenedig a gynigir i'r disgyblion.

A4 Cryfhau'r gweithdrefnau hunanarfarnu drwy ddatblygu trefniadau ar gyfer monitro medrau dysgu ehangach y disgyblion.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Ar draws yr ysgol, mae medrau gwrando'r disgyblion yn dda iawn. Gall mwyafrif y disgyblion adalw dysgu blaenorol yn effeithiol, gan ddefnyddio'r wybodaeth hon yn bwrpasol yn eu gwaith. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyfathrebu'n naturiol ar lafar yn y Gymraeg wrth drafod eu gwaith yn y gwersi ac yn anffurfiol mewn sefyllfaoedd gwahanol. Defnyddiant ystod o eirfa sydd yn briodol i'w hoed a'u gallu. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn trafod yn rhydd gan fynegi eu syniadau yn glir yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen gyda mynegiant a dealltwriaeth briodol. Defnyddiant ystod o strategaethau i'w cynorthwyo i fynd i'r afael â geiriau anghyfarwydd yn llwyddiannus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion hŷn yn darllen yn gywir ac yn ystyrlon yn y Gymraeg a'r Saesneg. Gallant drafod prif elfennau'r storïau a'r llyfrau maent yn eu hoffi neu ddim yn eu hoffi yn effeithiol. Mae medrau darllen ychydig o ddisgyblion ar waelod cyfnod allweddol 2 yn fwy anwastad. Yn gyffredinol, nid ydynt yn darllen gyda rhuglder a dealltwriaeth ddigonol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n annibynnol i ystod o ddibenion gan ddechrau amrywio brawddegau ac atalnodi'n gywir. Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn ysgrifennu'n briodol i ystod o bwrpasau yn y Gymraeg a'r Saesneg. Er hyn, prin yw'r enghreifftiau o ysgrifennu creadigol ac estynedig ar draws y cwricwlwm. Mae gafael lleiafrif y disgyblion ar fedrau sillafu yn fwy ansicr.

Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio eu medrau ymchwilio a'u medrau datrys problemau yn effeithiol mewn agweddau ar eu gwaith. Mae eu defnydd o fedrau gweithio'n annibynnol a'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn fwy anwastad.

Rhaid trin canlyniadau asesiadau athrawon gyda gofal oherwydd bod y niferoedd bychan o ddisgyblion mewn blwyddyn a'r canran o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gallu effeithio'n sylweddol ar berfformiad yr ysgol o un flwyddyn i'r llall.

Yn 2012, mae perfformiad disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn is na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion tebyg a Chymru ym mhob maes dysgu. O gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol am ddim, mae'r canlyniadau yn gosod yr ysgol ymhlith y 25% isaf. Mae craffu ar waith cyfredol y disgyblion yn dangos bod rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da o gymharu â'u hoed a'u cyfnod datblygu.

Tros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn gyson uwch na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion a Chymru mewn mathemateg a gwyddoniaeth ac mewn Saesneg yn y rhan fwyaf o'r blynyddoedd.

Maent yn fwy anwastad mewn Cymraeg. O gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol am ddim, mae'r canlyniadau yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2012, mae canran y disgyblion sydd yn cyflawni'r deilliannau uwch, sef deilliant 6, yn is na'r teulu o ysgolion ym mhob maes. Tros y pedair blynedd diwethaf, mae canran y disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 sydd yn cyflawni'r lefelau uwch, sef lefel 5, yn amrywio o gymharu ag ysgolion tebyg. Gan eithrio'r Gymraeg, mae'r canlyniadau yn dangos gwelliant yn 2012 gyda'r deilliannau yn uwch na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion ym mhob pwnc.

Nid oes patrwm cyson yn y gwahaniaeth rhwng canlyniadau bechgyn a merched. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni eu targedau. Gan fod nifer y disgyblion yn yr ysgol yn fechan, nid oes modd cymharu cyflawniad disgyblion sy'n hawlio cinio am ddim â'r rhai heb yr hawl.

**Lles: Da**

Mae'r disgyblion yn ymfalchïo yn eu hysgol a'r gymuned. Mewn trafodaethau, maent yn cadarnhau eu bod yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu gwerthfawrogi mewn amgylchedd gofalgar. Maent yn gwrtais ac yn dangos parch tuag at ei gilydd ac at athrawon. Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth sicr o bwysigrwydd bwyta'n iach ac o ymarfer y corff yn rheolaidd.

Mae presenoldeb disgyblion dros y tair blynedd diwethaf yn amrywio rhwng y 25% a'r 50% uchaf o'i gymharu ag ysgolion tebyg. Mae'r holl ddisgyblion yn brydlon.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos diddordeb yn eu dysgu ac yn cydweithio'n effeithiol o fewn y dosbarth. Mae'r holl ddisgyblion yn ymddwyn yn dda iawn yn y dosbarth ac o gwmpas yr ysgol.

Mae'r disgyblion yn chwarae rhan weithredol ym mywyd yr ysgol. Mae'r cyngor ysgol, sydd hefyd â chyfrifoldeb am faterion eco, yn cyfrannu'n briodol at waith yr ysgol. Nid yw'r aelodau yn cyfrannu'n benodol at benderfyniadau am weithgareddau'r ysgol a'u haddysg.

Mae'r cyfleoedd i gyfrannu at wasanaethau a chyngherddau yn y gymuned yn datblygu medrau cymdeithasol a bywyd y disgyblion ymhellach.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod briodol o brofiadau dysgu sydd yn cwrdd â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol, ac yn adlewyrchu egwyddorion y Cyfnod Sylfaen. Mae gweithgareddau cwricwlaidd a chyffredinol yr ysgol, gan gynnwys y ddarpariaeth allgyrsiol, yn ehangu profiadau dysgu'r disgyblion ac yn hyrwyddo eu datblygiad personol a chymdeithasol.

Mae’r cynlluniau tymor hir yn nodi cyfleoedd addas i ddatblygu medrau meddwl, cyfathrebu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu’r disgyblion. Serch hynny, nid yw’r cynllunio tymor byr yn sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn ymestyn eu medrau yn gyson trwy’r gweithgareddau a ddarperir.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu’r iaith Gymraeg yn galluogi’r disgyblion i wneud cynnydd da. Mae’r holl staff yn cynnig modelau iaith o safon dda i’r disgyblion. Caiff hyn effaith gadarnhaol iawn ar fedrau llafar disgyblion ar draws yr ysgol. Mae’r ysgol hefyd yn darparu ystod o gyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion astudio’r amgylchedd lleol a hanes a diwylliant Cymru. Mae’r defnydd o ymweliadau â mannau o ddiddordeb hanesyddol yn cyfoethogi’r dysgu ymhellach.

Trwy ystod eang o weithgareddau, hyrwyddir dealltwriaeth y disgyblion o gynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd eang yn effeithiol. Gwneir defnydd adeiladol o gyfleoedd ar draws y cwricwlwm, diwrnodau rhyngwladol, cysylltiadau gyda gwledydd eraill a gweithgareddau masnach deg i ddatblygu dealltwriaeth y disgyblion o’u rôl fel aelodau o gymuned ehangach.

**Addysgu: Da**

Mae’r athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol gadarn. Adlewyrchir hyn yn y defnydd adeiladol o fedrau pynciol wrth arwain y dysgu. Mae perthynas waith dda rhwng athro a disgybl a gwna’r cymorthyddion dosbarth gyfraniad effeithiol at y dysgu ac at les disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae ansawdd yr addysgu yn dda ar y cyfan. Mae defnydd da o ystod o ddulliau addysgu, ffocws cyson ar adeiladu ar waith blaenorol, holi medrus, a thasgau pwrpasol sydd yn ysgogi disgyblion. Mewn lleiafrif o wersi, mae’r cyflwyniadau yn rhy hir ac fe geir gormod o gyfarwyddo ar y gwaith. Nid yw’r gweithgareddau yn cael eu cynllunio’n ddigon manwl bob amser i herio’r disgyblion mwy galluog.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau priodol ar gyfer asesu a thracio cynnydd disgyblion. Caiff y deilliannau eu dadansoddi a’u ddefnyddio'n briodol i fonitro cynnydd a darparu cymorth ychwanegol i'r disgyblion yn ôl y galw.

Mae’r athrawon wedi ymgorffori rhai strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn eu harfer ond nid ydynt wedi’u sefydlu’n ddigonol i ddylanwadu’n gyson ar ansawdd y dysgu. Caiff gwaith disgyblion ei farcio’n rheolaidd ac mae’r adborth llafar a ddarperir o gymorth iddynt adnabod y camau nesaf i’w cymryd. Mae’r adborth ysgrifenedig yn fwy anwastad.

Mae’r adroddiadau i rieni yn ateb y gofynion statudol ac yn darparu gwybodaeth lawn am gynnydd eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae’r ysgol yn gymuned gynnes a chroesawgar. Mae trefniadau effeithiol yn eu lle i gefnogi iechyd a lles disgyblion. Anogir disgyblion i fwyta’n iach ac mae cyfleoedd priodol i wella eu ffitrwydd a’u hiechyd. Mae’r ysgol yn hyrwyddo presenoldeb da yn gyson ac yn sicrhau bod disgyblion a rhieni'n ymwybodol o'i disgwyliadau.

Mae darpariaeth effeithiol ar gyfer hybu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Mae’r pwyslais ar werthoedd da a pharchu eraill yn nodwedd amlwg yn y dosbarth, y sesiynau cyd-addoli a’r sesiynau amser cylch.

Mae gan yr ysgol gyswllt effeithiol gydag asiantaethau arbenigol a defnyddir ymweliadau gan ymwelwyr iechyd, swyddog cynhwysiant a’r heddlu i atgyfnerthu’r ddarpariaeth.

Mae gan yr ysgol bolisi a gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu ac nid ydynt yn destun pryder. Mae arweiniad clir i bob aelod o staff ac maent yn ymwybodol o’r gofynion.

Mae’r staff yn defnyddio prosesau priodol i adnabod disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae gan bob un gynllun addysg unigol sydd yn cynnwys targedau clir ar y ffordd ymlaen. Mae’r cynlluniau hyn yn cael eu hadolygu’n rheolaidd a’u diweddaru yn dilyn ymgynghoriad gyda’r disgyblion a’u rhieni. Maent yn cael effaith gadarnhaol ar hyrwyddo cynnydd a datblygiad y disgyblion.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos cynhwysol a gofalgar yr ysgol yn hyrwyddo cyfle cyfartal i bob disgybl i fanteisio ar amrediad llawn y ddarpariaeth addysgol. Llwyddir i ddatblygu ymwybyddiaeth disgyblion o gydraddoldeb ac amrywiaeth yn effeithiol. Rhoddir llawer o bwyslais ar gydweithio a pharchu cyfraniadau eraill. Mae trefniadau addas ar gyfer mynediad i ddisgyblion anabl.

Mae’r adeilad yn cynnig ystod o ddosbarthiadau ac ardaloedd dysgu a gwneir defnydd llawn ohonynt i gefnogi dysgu'r disgyblion. Mae arddangosfeydd o waith y disgyblion yn cyfrannu at greu amgylchedd diddorol a lliwgar. Mae’r ysgol ar safle braf a defnyddir yr ardaloedd allanol yn effeithiol i gyfoethogi profiadau’r Cyfnod Sylfaen.

Mae cyflenwad digonol o adnoddau i gefnogi’r dysgu yn y mwyafrif o feysydd a gwna’r staff ddefnydd effeithiol ohonynt. Er hyn, mae prinder adnoddau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, a llyfrau ffuglen a ffeithiol yn y llyfrgell.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae arweinyddiaeth effeithiol y pennaeth yn cynnig ymdeimlad o bwrpas i waith a bywyd yr ysgol. Mae’r holl staff yn rhannu’r un gwerthoedd ynghylch addysg a lles disgyblion. Maent yn cydweithio’n effeithiol sydd yn dylanwadu’n bositif ar y ddarpariaeth ac ar gyflawniad y disgyblion.

Mae gan yr ysgol ystod o bolisïau cyfredol sydd yn canolbwyntio ar fodloni anghenion y disgyblion ac yn arwain gwaith yr ysgol yn effeithiol. Gwneir defnydd priodol o ddadansoddiadau data i fesur cynnydd disgyblion ac i flaenoriaethu agweddau i dderbyn sylw pellach.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn o'r ysgol. Mae gan yr aelodau ddealltwriaeth sicr o'r ddarpariaeth addysgol ac o berfformiad yr ysgol mewn cymhariaeth ag ysgolion tebyg. Cyfrannant yn bwrpasol at y broses hunanarfarnu gan lwyddo i gydbwyso eu cefnogaeth gyson gyda bod yn ffrindiau beirniadol.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw priodol i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae'r Cyfnod Sylfaen wedi'i sefydlu ac mae gweithdrefnau addas yn eu lle i godi safonau llythrennedd a rhifedd ymhellach. Hyrwyddir hyfedredd dwyieithog y disgyblion yn effeithiol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r pennaeth a'r staff yn arfarnu perfformiad yr ysgol yn briodol ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'i chryfderau a'r prif elfennau ar gyfer datblygiad pellach. Yn ogystal, gwneir defnydd addas o safbwyntiau rhieni, disgyblion, llywodraethwyr a'r awdurdod lleol yn y cyd-destun hwn. Adlewyrchir hyn yn yr adroddiad hunanarfarnu cynhwysfawr sy'n cynnwys dadansoddiad manwl o ddata'r ysgol a'r blaenoriaethau o ran gwella cyflawniad disgyblion.

Mae'r ysgol yn defnyddio ystod o weithdrefnau priodol ar gyfer casglu gwybodaeth am ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Maent yn cynnwys dadansoddi data, arsylwi gwersi, craffu ar waith disgyblion ac arfarnu gwahanol agweddau o'r meysydd dysgu. Cofnodir y deilliannau a gwneir dadansoddiad addas o'r wybodaeth a gesglir i hyrwyddo gwelliannau megis cryfhau medrau llythrennedd Cymraeg y disgyblion hŷn. Nid yw rhai gweithdrefnau arfarnu, megis monitro datblygiad medrau dysgu ehangach y disgyblion, wedi'u datblygu'n llawn.

Mae deilliannau'r broses hunanarfarnu yn dylanwadu'n glir ar y blaenoriaethau yng nghynllun gwella'r ysgol. Mae'r cynllun gwella yn amlinellu'r ffordd ymlaen i'r ysgol ac yn manylu ar ystod addas o drefniadau gweithredu.

Mae'r ysgol yn rhan o rwydwaith proffesiynol o ysgolion lleol. Mae hyn yn dylanwadu'n gadarnhaol ar arferion a safonau'r ysgol yn enwedig wrth ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd, ac ehangu darpariaeth y Cyfnod Sylfaen. Mae'r cyfle i gyfrannu i gymuned ddysgu broffesiynol i hyrwyddo cynlluniau pontio rhwng y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn ddatblygiad buddiol i'r athrawon.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol ystod effeithiol o bartneriaid strategol gan gynnwys swyddogion gwella'r awdurdod lleol, arbenigwyr cefnogi disgyblion ac athrawon bro sy'n cynorthwyo'r ysgol i ddatblygu elfennau o'i darpariaeth yn barhaus.

Mae perthynas dda rhwng yr ysgol a'r rhieni. Mae'r rhieni'n gefnogol iawn o'r ysgol ac yn cyfrannu tuag at ystod o weithgareddau, gan gynnwys codi arian i brynu adnoddau ychwanegol sydd yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion.

Mae cydweithio gydag ysgolion lleol yn cyfrannu'n gynyddol at elfennau yn ymwneud â'r ddarpariaeth gwricwlaidd a chymedroli gwaith y disgyblion. Mae trefniadau pontio effeithiol ar gyfer plant sy'n trosglwyddo o'r cylch meithrin i'r ysgol ac i'r disgyblion

sydd yn trosglwyddo i'r ddwy ysgol uwchradd leol. Mae'r cysylltiadau agos gyda'r colegau addysg bellach lleol yn cynnwys cyfleoedd i'r disgyblion dderbyn gwersi mewn pynciau penodol ac i ddefnyddio'r cyfleusterau dysgu.

Mae ymweliadau â'r gymuned a'r defnydd o arbenigeddau unigolion lleol yn gwneud cyfraniad pwysig i brofiadau dysgu'r disgyblion. Trwy ystod o weithgareddau, mae'r ysgol yn cyfrannu'n effeithiol at fywyd y gymuned ac yn gwneud defnydd cyson o'r pwll nofio a'r llyfrgell ar gyfer datblygu medrau dysgu'r disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau yn effeithiol. Cyflogir digon o athrawon a staff cynorthwyol i ymateb i ofynion lles a dysgu'r disgyblion. Gwneir defnydd da o arbenigedd pynciol yr athrawon drwy gyfnewid dosbarthiadau ar gyfer rhai gwersi.

Rhoddir pwyslais da ar ddatblygiad proffesiynol parhaus yr holl staff ac mae prosesau rheoli perfformiad priodol yn hybu hyn ymhellach. Gwna'r athrawon ddefnydd effeithiol o'u hamser digyswllt ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu gwaith y disgyblion.

Caiff yr adeilad a safle'r ysgol eu cadw a'u cynnal yn dda ac mae cyflenwad digonol o adnoddau ar gyfer darparu ystod o brofiadau dysgu yn y mwyafrif o bynciau.

Ar y cyfan, mae'r adnoddau ariannol yn cael eu rheoli yn effeithiol. Caiff y gwariant ei fonitro'n rheolaidd gan y pennaeth, y llywodraethwyr a'r awdurdod lleol. Sicrheir bod y gwariant yn cyd-fynd â gofynion y disgyblion a chynllun gwella'r ysgol.

O ystyried cynnydd a deilliannau'r disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Rhaid trin canlyniadau asesiadau athrawon gyda gofal oherwydd bod y niferoedd bychan o ddisgyblion mewn blwyddyn a'r canran o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gallu effeithio'n sylweddol ar berfformiad yr ysgol o un flwyddyn i'r llall.

Yn 2012, mae'r canran o ddisgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen sy'n cyflawni'r lefelau disgwyliedig yn is na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion tebyg mewn sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu, datblygiad mathemategol, a datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.  O gymharu ag ysgolion tebyg o ran y canran o ddisgyblion sydd â hawl i dderbyn cinio am ddim, mae'r canlyniadau yn gosod yr ysgol ymhlith y 25% isaf ym mhob maes.

Tros y pedair blynedd diwethaf, mae canlyniadau disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn gyson uwch na'r teulu o ysgolion a Chymru mewn mathemateg a gwyddoniaeth ac yn uwch mewn Saesneg yn y rhan fwyaf o'r blynyddoedd.  Maent yn fwy anwastad mewn Cymraeg.  Maent yn uwch na chyfartaleddau'r teulu a Chymru mewn dwy allan o'r pedair blynedd.

O gymharu ag ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sydd â hawl i dderbyn cinio am ddim, mae'r canlyniadau yn gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf yn gyson mewn mathemateg a gwyddoniaeth ac mewn Saesneg yn y rhan fwyaf o'r blynyddoedd. Mae canlyniadau Cymraeg yn amrywio rhwng y 25% uchaf a'r isaf.

Mae'r canran o ddisgyblion sy'n cyflawni'r deilliannau uwch ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2012 yn is na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion mewn datblygiad sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu, datblygiad mathemategol, a datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.  Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae'r canran o ddisgyblion sy'n cyflawni'r lefelau uwch yn 2012 yn well na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ond yn is mewn Cymraeg.  Mae'r canlyniadau yn y blynyddoedd blaenorol yn anwastad.

Nid oes patrwm cyson yn y gwahaniaeth rhwng canlyniadau bechgyn a merched. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni eu targedau.  Oherwydd niferoedd bychan iawn, nid oes modd cymharu cyflawniad disgyblion sy'n hawlio cinio am ddim a'r rhai heb yr hawl.

Tros bedair blynedd, mae cyflawniad disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn eu medrau llafar, darllen ac ysgrifennu Saesneg yn gyson uwch na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion.  Mae medrau llafar, darllen ac ysgrifennu Cymraeg yn fwy anwastad.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr**

Cwblhaodd 22 o ddisgyblion yr holiadur. Mae pawb yn datgan eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a bod yr ysgol yn delio â bwlio yn dda. Maent yn nodi eu bod yn cael eu haddysgu i fod yn iach a bod llawer o gyfleoedd iddynt wneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae pawb o'r farn eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol ac yn datgan bod athrawon yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Mae bron pob un yn dweud eu bod yn gwybod â phwy i siarad os ydynt yn gofidio am rywbeth. Mae llawer yn credu bod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella'u gwaith ysgol. Mae pawb o'r farn bod ganddynt ddigon o lyfrau ac offer i wneud eu gwaith. Mae bron pob un o'r farn bod disgyblion yn ymddwyn yn dda yn ystod gwersi, amser chwarae ac yn ystod yr egwyl ginio.

Mae'r ymatebion yn cynnig darlun cadarnhaol sy'n cymharu'n dda gyda'r cyfartaleddau cenedlaethol ar gyfer ysgolion cynradd.

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Nid oes sylwebaeth ar yr holiaduron rhieni oherwydd y nifer fach o ymatebion a dderbyniwyd.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Dorothy Morris | Arolygydd Cofnodol |
| Rhian Jones | Arolygydd Tîm |
| Dylan Jones | Arolygydd Lleyg |
| Bethan Bleddyn | Arolygydd Cymheiriaid |
| Rhiannon Ainsworth | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.